# Creu Cynnyrch Unigryw  (un yn unig)

Mae creu cynnyrch unigryw (a elwir hefyd yn Creu Cynnyrch un yn unig, wedi'i fesur neu wedi'i deilwra'n arbennig) yn ddull cynhyrchu traddodiadol lle gwneir cynnyrch unigryw i gwsmer penodol.

## Y ffeithiau sylfaenol

- Mae gweithredwyr peiriannau (peirianwyr) yn fedrus iawn. Gall **un** peiriannydd fod yn gyfrifol am wneud y cynnyrch **cyflawn**. Weithiau bydd grŵp bychan o beirianwyr medrus iawn yn cydweithio i wneud cynnyrch.
- Mae'n **llafurddwys** ac yn **ddrud.**
- Gall y gwaith fod yn **gymhleth** a **manwl** iawn. Mae'n aml yn cynnwys gwaith llaw.
- Mae'n rhaid i'r peiriannau fod yn rhai **amlbwrpas** y gellir eu haddasu'n hawdd i weddu gwahanol brosesau.
- Gall fod yn **llafurus o ran amser.**
- Defnyddir ffabrigau a chydrannau **drud** iawn fel arfer.
- Mae **safon** a **chost uchel** yn gysylltiedig â chynnyrch unigryw.

Mae dillad **Haute Couture** yn y categori hwn **-** dillad a wneir i gwsmeriaid unigol, drud iawn ac unigryw. Y farchnad darged ar gyfer y math hwn o ddillad yw pobl gyfoethog iawn megis enwogion sy'n gallu fforddio i gomisiynu cynllunwyr i wneud gwisg unigryw at ddiben neu ddigwyddiad penodol. Dim ond tai ffasiwn Ffrainc sy'n cynhyrchu gwir Haute Couture.

**Dillad wedi'u teilwra'n arbennig** – siwtiau neu grysau wedi'u mesur i ddynion a merched. Mae rhai ffrogiau priodas yn cael eu cynnwys yn y categori hwn hefyd – sydd wedi'u gwneud ar gyfer cleientiaid unigol.

## Haute Couture neu Ddillad Unigryw



Vivienne Westwood – creu cynnyrch unigryw



JohnGalliano – Haute Couture



Versace



Versace



Strictly Come Dancing!

## Manteision cynnyrch unigryw

- Bri i'r cynllunwyr/gweithgynhyrchwr.
- Mae hefyd yn galluogi'r cynllunwyr i fod yn greadigol iawn.
- Cyfle i weithio gyda'r ffabrigau gorau a mwyaf unigryw.
- Llai o gyfyngiadau o ran cost cynnyrch unigol.
- Gall un dilledyn werthu am filoedd o bunnoedd.
- Dillad unigryw wedi'u gwneud â llaw i'r cwsmer.
- Gall cwsmeriaid gael dylanwad uniongyrchol dros y cynnyrch.
- Mae'r cwsmeriaid yn gwybod y bydd ganddynt gynnyrch o ansawdd uchel.

## Anfanteision cynnyrch unigryw

- Cost uchel defnyddiau a llafur.
- Gall camgymeriadau wrth dorri defnyddiau neu wrth weithgynhyrchu fod yn gostus iawn.
- Rhy ddrud i'r mwyafrif o bobl, marchnad darged gyfyngedig.
- Llafurus o ran amser.
- Mae'n rhaid i beirianwyr fod yn fedrus a hyblyg iawn.
- Gall cwsmeriaid newid eu meddyliau am y cynnyrch.